


## WILLIAMS, GRIFFITH JOHN (1892 - 1963), Athro prifysgol ac ysgolhaig Cymraeg



**Enw:** Griffith John Williams

**Dyddiad geni:** 1892

**Dyddiad marw:** 1963

**Priod:** Elizabeth Elen Williams (née Roberts)

**Rhiant:** Ann Williams (née Griffiths)

**Rhiant:** John Williams

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** Athro prifysgol ac ysgolhaig Cymraeg

**Maes gweithgaredd:** Addysg; Ysgolheictod ac leithoedd

**Awdur:** Aneirin Lewis

Ganwyd yn Cellan Court (y Llythyrdd), Cellan, Ceredigion, ar 19 Gorffennaf 1892, mab hynaf John ac Anne (ganwyd Griffiths) Williams; ei frawd iau oedd **Dr David Matthew Williams** (1900 - 1970), arolygwr ysgolion. Gof oedd y tad wrth ei grefft a chan fod pum erw o dir ynghlwm wrth y tŷ, cadwai fuwch neu ddwy a mochyn yn ogystal â gweithredu fel postmon yr ardal; bu'n arwain y canu yng Nghapel yr Erw (A) am dros 50 mlynedd a hefyd yn ysgrifennydd yr eglwys; bu farw yn 1931 yn 87 mlwydd oed. Yr oedd tad John Williams yn disgyn o'r Dafisiad, teulu o'faint yn Nyffryn Aeron a phriododd ferch teulu nodedig o seiri coed a cherddorion ym mro Cellan. O Ddyffryn Aeron hefyd y deuai mam G. J. Williams, hithau'n ferch i Elizabeth Griffiths, gwraig y dywedir ei bod yn prydyddu llawer, er nad ymddengys bod dim o'i gwaith wedi ei gadw.

Addysgwyd ef yn ysgol y cyngor, Cellan, ac ar 20 Medi 1905 ymaelododd yn ysgol ganolraddol Tregaron, lle'r oedd yn rhaid iddo letya dros ddyddiau'r wythnos. Collodd tua blwyddyn gyfan o ysgol yn gynnar yn ei yrfa yno oherwydd iddo orfod aros gartref er mwyn cryfhau ei iechyd. Dyna pryd y bu'n cynorthwyo'i dad i gario'r post a dechrau ymddiddori yn hanes y fro gan ddarllen pob math o lyfrau ar hanes lleol a chyffredinol. Yr oedd yn y cartref lyfrau megis *Y Gwyddoniadur*, *Hanes y Brytaniaid a'r Cymry*, *Cannwyll y Cymry*, *Difyr-Gampau ... Twm Shon Catti*, a chyfrolau wedi eu rhwymo o'r *Cennad Hedd a'r Diwygiwr*. Mynnai ei hen athro, S. M. Powell, mai yn ystod y flwyddyn honno, ac yntau'n rhydd o ormes addysg ffurfiol, y plannwyd hedyn yr ysgolhaig a flagurodd yn ddiweddarach.

Yn 1911 aeth i Goleg Prifysgol Cymru yn Aberystwyth gan ddal Ysgoloriaeth Cynnddelw; bu'n astudio Mathemateg, Lladin, Hanes a graddio gydag anrhydedd yn y Gymraeg yn 1914. Bwrïodd y ddwy flynedd nesaf yn athro yn ysgol sir Dolgellau (1914-15) ac yn ysgol sir y Porth, Cwm Rhondda (1915-16). Yna, cafodd ysgoloriaeth ymchwil a dychwelodd i Aberystwyth i astudio testunau Cymraeg Canol ac yn 1918 dyfarnwyd iddo radd M.A. am draethawd ar 'The verbal forms in the Mabinogion and Bruts'. Yn y cyfamser, ar anogaeth **J. H. Davies** a chyda chymorth ysgoloriaeth ychwanegol aeth ati i astudio llawysgrifau Llanofar a drosglwyddwyd i'r Llyfrgell Genedlaethol yn 1917. Dyna sut y dechreuodd ymddiddori ym mywyd a gwaith **lolo Morganwg** (Edward Williams), ei brif faes ymchwil o hynny hyd ddiwedd ei oes. Yn 1918, yn Eisteddfod Genedlaethol Castell-nedd, enillodd wobr y prif draethawd ar y testun 'Beirdd Morgannwg hyd ddiwedd y Ddeunawfed Ganrif'. Yn 1919, cyhoeddodd ysgrifau yn *Y Beirniad* ar waith **lolo** a dyfarnwyd iddo Gymrodoriaeth Prifysgol Cymru er mwyn iddo barhau â'i astudiaethau yn y maes hwn. Bu'n gweithio o dan gyfarwyddyd **Syr John Morris-Jones** ym Mangor yn ystod sesiwn 1919-20 a threuliodd gyfnodau yn astudio llawysgrifau yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain, Llyfrgell Bodley, Rhydychen, Llyfrgell Rhydd, Caerdydd, yn ogystal â chofrestru plwyfydd Bro Morgannwg. Yn y cyfnod hwn hefyd, bu'n rhaid iddo amddiffyn ei ysgolheictod yn y wasg gyhoeddus yn wyneb ymosodiadau ffyrnig gwŷr amlwg megis **W. Llewelyn Williams** na fynnai glywed y gwir am ffugiadau **lolo Morganwg**. Parodd yr ymgeccu cyhoeddus i drefnwyr Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1921, bennu'n destun y prif draethawd un agwedd benodol ar waith **lolo**, sef ei gysylltiad â'r un-ar-bymtheg o gywyddau a gynhwyswyd yn '*Y Chwanegiad*' i *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (1789). Dyma'r cywyddau a anfonasai **lolo** i Lundain at **Owen Myfyr** a **William Owen-Pughe**, golygyddion y llyfr, gan honni iddo eu copïo o hen lawysgrifau a ddiogelwyd ym Morgannwg. Y tri beirniad oedd **John Morris Jones**, **T. Gwynn Jones** a **W. J. Gruffydd**. Yr unig gystadleuydd oedd G. J. Williams a gyflwynodd draethawd maith a manwl yn profi'n derfynol mai gwaith **lolo Morganwg** ei hun oedd pedwar-ar-ddeg o'r cywyddau. Yr oedd yn llwyr deilyngu'r wobr o £40.

Y mae llwyddiannau eisteddfodol G. J. Williams yn dangos y lle pwysig a oedd i'r Eisteddfod Genedlaethol ym mywyd Cymru a'r cyfraniad rhagorol a wnâi i hyrwyddo ysgolheictod Cymraeg cyn i'r Brifysgol gael ei thraed dani. Gwasanaethodd yr Eisteddfod fel ysbardun i G. J. Williams, nid yn unig fel ysgolhaig ond fel bardd hefyd. Soniai'n frwdfydig hyd ddiwedd ei oes am ei ymweliad cyntaf â'r Eisteddfod pan aeth ei dad ag ef i Gaerfyrddin yn 1911 yn union cyn iddo fynd yn fyfyrwr i goleg Aberystwyth. Yn ystod y deng mlynedd nesaf, hoffai gystadlu ac enillodd yn Eisteddfod Corwen yn 1919 ar y tair telyneg, y soned, y darn barddonol i'w adrodd ac ar gyfansoddi penillion telyn. Ac yn y Barri yn 1920 y gwobrwywyd ei delyneg ' Gwladys Ddu ' a'i soned ' Llanilltud Fawr '. Yn wir, yn y cyfnod hwn, yr oedd yn cyflwm ddatblygu'n fardd o bwys ac ymhlith ei bapurau ceir cyfrol sylweddol o gerddi yn llawysgrifen ei briod. Ond wrth ymroi i ymchwilio ar **lolo** a'i benodi yn 1921 yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, rhoes heibio farddoni a'i duedd yn ddiweddarach oedd edrych ar ei gerddi fel difyrwrch ei gyfnod bachgennaidd.

Rhoes o'i orau eithaf i'w waith fel darlithydd ac yn 1946 olynodd yr **Athro W. J. Gruffydd** yng Nghadair y Gymraeg, canys erbyn hyn yr oedd wedi datblygu'n un o brif ysgolheigion Cymraeg ei gyfnod. Er mwyn gwahanu'r us oddi wrth y grawn yn nysg enfawr a dychymyg toreithiog **lolo Morganwg**, ymroes i feistrol pob agwedd ar ddydd yr iaith Gymraeg a'i thradodiad llenyddol. Canlyniad hyn oedd iddo gyfrannu'n ddisglair mewn llawer maes. Yn *Gramadegau'r Penceirddiaid* (1933), ceir testun safonol o ramadeg y beirdd yn yr Oesoedd Canol gyda rhaegymadrodd awdurdodol ar y ffynonellau llawysgrif ac ar addysg y beirdd. Gwnaeth astudiaeth drwyddol o waith ysgolheigion Cymraeg y Dadeni Dysg gan olygu argraffiadau o *Barddoniaeth neu Brydyddiaeth* (1593) **William Middleton** ac *Egluryn Phraethineb* (1595) **Henri Perri**. Eithr ei gampwaith yn y maes hwn oedd ei olygiad meistraidd o '*Ramadeg Cymraeg*' **Gruffydd Robert** (1939), gwaith a olygodd ymchwiliadau yn y Biblioteca Ambrosiana ym Milan a llyfrgelloedd eraill yn yr Eidal. Hefyd, gwnaeth gyfraniadau gwreiddiol i lèn a dysg yr 17eg ganrif, y 18ed a'r 19edd ganrif. Y mae ei gyhoeddiadau yn cynnwys astudiaethau safonol o waith **Stephen Hughes**, **Charles Edwards**, **Edward Lluyd**, **William Owen-Pughe**, ac eraill. Hoeliodd sylw ar le allweddol bwysig cymdeithasau Cymreig Llundain, yn enwedig y Cymmrodorion a'r Gwyneddigion, yn natblygiad llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod diweddar. Dangosodd sut y gwelir hwy'n dilyn egwyddorion beirniadol **Goronwy Owen** a mudiad clasurol y 18ed ganrif ac yn sefydlu'r eisteddfod ddiweddar fel cyfrngw cynhyrchu llenyddiaeth a hyrwyddo ysgolheictod. Ymhellach, ymnodd mai '**Gorsedd** Beirdd Ynys Prydain', creadigaeth **lolo**, er mai ffug ydoedd yr hynafiaeth a hawliai iddi, a ramanteiddiodd yr eisteddfod a'i gwneud yn fudiad poblogaidd y werin yn ail hanner y

19eg ganrif a chael dylanwad aruthrol ar dwf yr ymwybod cenedlaethol a datblygiad llenyddiaeth a diwylliant yng Nghymru.

Y mae'n sicr mai ar draddodiad llenyddol Morgannwg y cyflawnodd G. J. Williams ei waith praffaf a llawnaf. Yn 1926, cyhoeddwyd traethawd buddugol 1921 o dan y teitl *Iolo Morganwg a Chywyrddau'r Ychwanegiad*. Yn 1948, ymddangosodd *Traddodiad llenyddol Morgannwg*, a fwriadwyd ar y cyntaf yn bennod ragarweiniol i gofiant **Iolo** ond a dyfodd yn gyfrol o dros dri chan tudalen. Ac yntau'n barod i ymgodymu o ddirif â llunio ffurf derfynol ei gofiant arfaethedig, rhwng 1953 ac 1955, trosglyddodd **Iolo Aneurin Williams**, un o ddisgynyddion **Iolo**, i'r Llyfrgell Genedlaethol focseidiau o lythyrau a llyfrynau o waith **Iolo Morganwg** a fu ym meddiant y teulu ym Middlesborough a gogledd-ddwyrain Lloegr, ac yn Kensington, ond a fu ar goll nes i chwaer **Iolo Aneurin Williams** etifeddu'r tŷ y bu'r teulu'n byw ynddo cyn ei werthu i deulu arall, a chael hyd i'r llawysgrifau mewn cist a adawyd mewn cut yn yr ardd cyn gwerthu'r eiddo. Ar ôl meistrolï'r deunydd ychwanegol hwn, ymddangosodd *Iolo Morganwg: y gyfrol gyntaf* yn 1956. Ysyaeth, dyma'r unig gyfrol a gyfansoddodd. Er iddo ymdeol o Gadair y Gymraeg yng ngholeg Caerdydd yn 1957, ni fynnai ymglyfngu a chanolbwyntio ar orffen cofiant **Iolo** yn unig. Parhaodd i olygu *Llên Cymru*, y cylchgrawn hanner-blyneddol y bu ef yn bennaf gyfrifol am ei sefydlu yn 1950 er mwyn cyhoeddi ffrwyth ymchwil i hanes llenyddiaeth Gymraeg. Yn 1959, traddododd y Ddarlith O'Donnell yng ngholegau Prifysgol Cymru. Ei destun oedd ' Edward Lhuyd ', gwaith a olygodd lawer o ymchwilio yn Rhydychen. Beirniadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, darlithia i gymdeithasau lleol ac yn 1960, etholwyd ef yn llywydd cyntaf yr Academi Gymreig. Rhoddai lawer o'i amser hefyd i ymchwilio i hanes geiriau unigol yn rhinwedd ei aelodaeth o fwrdd golygyddol *Geiriadur Prifysgol Cymru*. Ymfalchïai'n fawr iawn fod R. J. Thomas (1908 - 1976), un o'i hen ddisgyblion disgleiriaf, wedi cysegru ei yrfa'n gyfan gwbl i wasanaethu'r *Geiriadur* fel golygydd a bu'n hael ei gefnogaeth a'i gynorthwyo iddo. Hefyd, rhwng 1959 ac 1961, ef oedd cadeirydd Pwyllgor Amgueddfa Werin Sain Ffagan ac ymddiddorai'n fawr yn natblygiad yr Adran Traddodiadau Llafar a Thafodieithoedd. Pa un bynnag, yn ystod 1962 yr oedd wedi trefnu ei holl adysgrifau, nodiadau a mynegeion ar **Iolo** a'i waith ac yn barod i gychwyn ar y gorchwyl o gyfansoddi'r ail gyfrol. ' Iolo Morganwg ' oedd ei ddewis bwnc pan wahoddwyd ef i draddodi darlith flynyddol y B.B.C. Saesneg o flaen cynulleidfa yn Y Bont-faen, Morgannwg, yng ngwanwyn 1963. Ysyaeth, ni chafodd ei thraddodi ond i'w wraig yn nhawelwch ei stydi, a thra oedd yn newid geiriad y paragraff olaf, trawyd ef yn sâl wrth ei ddesg a bu farw ymhen ychydig ddyddiau ar 10 Ionawr 1963.

Priododd yn 1922 ag Elizabeth Elen Roberts, Blaenau Ffestiniog, cyd-efrydydd yng ngholeg Aberystwyth (1910-14) a fu'n athrawes y Gymraeg yn ysgol sir y merched, Trefforest, Pontypridd (1914-18) ac yn ysgol sir Glynabwy, Mynwy (1918-22). Ni chawsant blant a bu hithau farw yn Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd, ar 31 Ionawr 1979 wedi ychydig ddyddiau'n unig o anhwylder. Bu hi'n gefn ac yn gynorthwyo ymarferol mawr i'w phriod ar hyd ei yrfa ac yn fawr ei gofal am yr iaith Gymraeg a holl fywyd Cymru. Meddiannwyd y ddau gan awydd angerddol i wasanaethu eu gwlad a'u cenedl. Gwnaethant eu cartref o 1922 hyd 1933 yn 9 Bedwas Place, Penarth, ac yno ar 7 Ionawr 1924, y daeth **Saunders Lewis** a **W. Ambrose Bebb** at ei gilydd i sefydlu 'mudiad Cymreig newydd', penderfynu ar egwyddorion sylfaenol, a dewis ' **W. Ambrose Bebb** yn llywydd y mudiad, **Saunders Lewis** yn Ysgrifennydd a G. J. Williams yn Drysorydd '. Dyma'r ffrwd o dde Cymru a ymunodd â'r ffrwd o'r gogledd i sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru yn Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli yn Awst 1925. Yn 1933, symudasant i Bryntaf, Gwaelod-y-garth, ac yn ei hewyllys gadawodd Mrs Williams y tŷ hwn i Blaid Cymru. Hefyd, yn 1968, cyflwynodd swm sylweddol o arian i Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru er mwyn sefydlu ymddiriedolaeth i gynorthwyo plant o dan anfantais sydd yn Gymry Gymraeg. Cafodd yr amcanion sêl a bendith y Comisiwn Elusennau ac y mae ' Ymddiriedolaeth Bryn Taf ' wedi cynorthwyo nifer o blant o wahanol rannau o Gymru dros y blynnydoedd.

Bu G. J. Williams yn gasglwr brwd ar hen lyfrau Gymraeg trwy gydol ei oes ac yr oedd ganddo lyfrgell odidog a gynhwysai drysorau megis ei ddau gopi o rannau o *Destament Newydd William Salesbury*, *Y Drych Cristianogawl* (1585), copi **Thomas Evans** Hendre Forfudd o *Ramadeg Siôn Dafydd Rhys* (1592) a fu wedi hynny'n eiddo i **William Maurice** o Lansilin, ynghyd â llawer o lyfrau eraill prin o'r 17eg ganrif a'r 18ed ganrif. Y mae llyfrgell G. J. Williams a'i bapurau ynghyd â'r silffoedd, y cypyrddau a'i ddesg yn awr yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Ceir rhestr o'i gyhoeddiadau yn *Agweddau ar hanes dysg Gymraeg*, gol. Aneurin Lewis, Caerdydd, 1969, 279-86.

## Awdur

**Aneurin Lewis**, (1924 - 1989)

## Ffynonellau

Ymchwil bersonol

Aneurin Lewis yn W. Alun Mathias ac E. Wyn James (gol.), *Dysg a dawn cyfrol goffa Aneurin Lewis* (Caerdydd 1992), 30-37, 67-81

Ceri W. Lewis, *Griffith John Williams (1892-1963) y dyn a'i waith*

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Griffith John Williams**

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q18123555**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

**Arddull APA**

x

Lewis, A., (1997). WILLIAMS, GRIFFITH JOHN (1892 - 1963), Athro prifysgol ac ysgolhaig Cymraeg. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-WILL-JOH-1892>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwics  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government